OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 1999 Rhif 2893 (Cy.26)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Apelau Derbyniadau Ysgol: Cod Ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwrnod Penodedig) 1999

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *31 Awst 1999* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Medi 1999* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 85(5) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad.(**2**)

### Enwi

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Apelau Derbyniadau Ysgol: Cod Ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwrnod Penodedig) 1999.

### Diwrnod Penodedig

**2.** Pennir drwy hyn 1 Medi 1999 fel y dyddiad y daw "Apelau Derbyniadau Ysgol: Cod Ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru"(**3**) a gyhoeddir yn unol ag adran 84 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ar 20 Awst 1999 i rym.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*Dafydd Elis Thomas*
Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

31 Awst 1999

(**1**) 1998 p.31.
(**2**) rosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 85(5) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) ISBN 0750423528. Dim ond yng Nghymru y mae'r Cod yn gymwys.
(**4**) 1998 p.38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Adran 84 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi Cod Ymarfer yn cynnwys y canllawiau ymarferol y mae'n credu eu bod yn briodol, o ran cyflawni swyddogaeth dderbyn gan awdurdodau addysg yn ôl lleoliad gan awdurdodau addysg, cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir a phaneli apelau derbyniadau.

Mae Adran 85 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cod Ymarfer ar Apelau Derbyniadau ddod i rym drwy Orchymyn.

Mae'r Cod Ymarfer yn gymwys yn bennaf i apelau derbyniadau ar gyfer y nifer a dderbynnir i ysgolion cynradd ac uwchradd o 2000/2001 ymlaen ac mae'n ymdrin â dau gategori ar wahân o apelau derbyn:

- apelau gan rieni yn erbyn penderfyniad gan awdurdod derbyn ysgol i wrthod cynnig lle i'w plentyn yn yr ysgol o dan sylw; ac
- apelau gan gyrff llywodraethu ysgolion cymunedol neu ysgolion gwirfoddol a reolir yn erbyn penderfyniad gan AALl i dderbyn plentyn i'r ysgol sydd gynt wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy neu ragor o ysgolion.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 1 Medi 1999 fel y diwrnod y daw Cod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Apelau Derbyniadau i rym. Mae Cod sy'n cynnwys canllawiau i awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ar eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag apelau derbyniadau eisoes wedi'i gyhoeddi ar 20 Awst 1999.

Gellir cael copïau o'r ddau God o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. Mae modd eu gweld hefyd ar y Rhyngrwyd yn www.cymru.gov.uk.